**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 28 MAWRTH 2017 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mr Daniel Mosley (Swyddog Arolygon); Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon); Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon); Mrs Caroline Redmond (Cynorthwyydd Swyddfa)

**Amser Dechrau:** 09:30
**Amser Gorffen:** 12:30

**Ymddiheuriadau:** Mr David Powell; Mrs Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes)

**1. Datganiadau o Fuddiant**

1.1. Cyfeiriwyd at y Datganiadau o Fuddiant a wnaed yng nghyfarfod mis Tachwedd mewn perthynas â Julie May ac arolwg Ffiniau Tua'r Môr Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

**2. Briff y Cadeirydd**

2.1. Croesawodd y Cadeirydd a'r Comisiwn Ross Evans yn ôl i'r swyddfa ar ôl ei gyfnod tadolaeth, ac fe'i llongyfarchwyd ar enedigaeth ei ferch.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2017**

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2017 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar fân newid.

**4. Materion sy'n codi**

4.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 15 Mawrth 2017 gan y Prif Weithredwr ar Faterion sy'n Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd gan nodi'r mater i'w drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd hefyd cynnydd cyfredol ar y materion canlynol:

- **(Mater 1)** Cyfathrebu â Rhanddeiliaid Arolygon Etholiadol – Cynhelir cyfarfod ar ôl yr etholiad. Mehefin 2017. **Prif Weithredwr**
- **(Mater 2)** Staffio – Derbyniwyd un cais ar gyfer swydd y Swyddog Cymorth Busnes. Caiff cyfweliad ffôn ei drefnu. **Rheolwr Cymorth Busnes**
- **(Mater 3)** Porth Ymgynghori – Cynhelir y bwrdd tendro ar 03 Ebrill 2017. **Dirprwy Brif Weithredwr**
- **(Mater 4)** Telerau ac Amodau Staff – Nododd y Comisiwn yr ymateb gan Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru. **Cytunodd** y Comisiwn i roi Lwfans Cadw ar waith ar gyfer aelodau dethol o'r Ysgrifenyddiaeth, o 01 Ionawr 2017. Nododd y Comisiwn fod cyllid digonol ar gael yng nghyllideb 17/18. **Rheolwr Cyllid**
- **(Mater 7)** Strategaeth TG – Mae Cymwysterau Cymru wrthi'n cadarnhau ei achos busnes â Llywodraeth Cymru cyn ei gyflwyno i'r Comisiwn yn Ebrill 2017. Rhoddodd y Dirprwy Brif Weithredwr wybod i'r Comisiwn am y cyfarfod ag adran TGCh Llywodraeth Cymru a'r problemau dilynol yn ymwneud ag aros gydag adran TGCh Llywodraeth Cymru. **Dirprwy Brif Weithredwr**
- **(Mater 9)** Cyfarfod Rhyng-gomisiynol 2017 – Mae Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru wedi cynnig cynnal y cyfarfod yn y Senedd. Caiff dyddiadau a chostau eu harchwilio. **Rheolwr Cymorth Busnes**

## 5. Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 01 Mawrth 2017 gan y Prif Weithredwr.

5.2. **Cytunodd** y Comisiwn â'r ymateb, yn amodol a fân newid.

## 6. Cynllun Gweithredol Drafft

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 16 Mawrth 2017 gan y Prif Weithredwr.

6.2. **Nododd** y Comisiwn y Cynllun Gweithredol drafft, a gwnaed nifer o ychwanegiadau. Caiff drafft pellach ei ddosbarthu i'r Aelodau mewn e-bost er mwyn cytuno arno cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## 7. Safonau'r Gymraeg

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 18 Mawrth 2017 gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

7.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad a'r gwaith a gwblhawyd hyd yn hyn i gydymffurfio â'r holl safonau perthnasol. Mae'r Comisiwn ar y trywydd iawn i fodloni'r holl safonau cyn pen y terfyn amser, sef Gorffennaf 2017.

## 8. Datganiad Llywodraethu CFfDLC 2016-17

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 08 Mawrth 2017 gan y Rheolwr Cyllid.

8.2. **Cytunodd** y Comisiwn ar y Datganiad Llywodraethu, yn amodol ar nifer o ddiwygiadau, a chynnwys ychwanegol. Byddai fersiwn derfynol o'r datganiad yn cael ei dosbarthu i'r Aelodau mewn e-bost i'w chymeradwyo cyn ei chynnwys yn fersiwn ddrafft Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2016/17.
**Gweithredu: Rheolwr Cyllid**

## 9. Rheoli Risg

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 07 Mawrth 2017 gan y Rheolwr Cyllid.

9.2. **Nododd** y Comisiwn y Gofrestr gyfredol a chymeradwyodd y newidiadau argymelledig i'r Gofrestr a gynigiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio.

9.3. **Cytunodd** y Comisiwn â'r newidiadau canlynol.

- CR2: Lleihau'r risg gweddilliol i Effaith 4, Tebygolrwydd 3 = Risg gyffredinol 12 (Melyn), oherwydd y mae mwyafrif y gofynion staffio ar gyfer yr arolwg etholiadol ar waith, a chynhwyswyd cam lliniaru ychwanegol yn ymwneud â chytundeb Llywodraeth Cymru i roi lwfansau cadw staff.
- CR12: Lleihau'r risg gweddilliol i Effaith 4, Tebygolrwydd 3 = Risg gyffredinol 12 (Melyn) i adlewyrchu'r cynnydd diweddar yng nghamau cynnar y rhaglen arolygu, ynghyd â'r risg is yn ymwneud â staffio digonol.

## 10. Rheoli'r Gyllideb

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Mawrth 2017 gan y Rheolwr Cyllid.

10.2. Nododd a chytunodd y Comisiwn â'r newidiadau i ddyraniadau categorïau'r gyllideb ar ôl ildio £50,000 o Gymorth Grant yn ôl i Lywodraeth Cymru. Crybwyllwyd y byddai tanwariant yn y gyllideb o oddeutu £118,000 ar ddiwedd y flwyddyn, y byddai oddeutu 96,000 ohono

yn ymwneud â chyllideb Swyddfa Cabinet y Comisiwn Ffiniau i Gymru ac oddeutu £22,000 ohono yn ymwneud â Chymorth Grant Llywodraeth Cymru.

10.3. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwybod i'r Comisiwn y bydd yn newid y modd y bod yn codi am staff sy'n cael eu secondio allan, ac na fydd costau cyflog yn cael eu didynnu'n syth o Gymorth Grant y Comisiwn mwyach, ond y bydd yn anfonebu amdanynt. Bydd y trefniant newydd hwn yn cwmpasu costau cyflog 2016-17 o fis Hydref 2016 ar gyfer secondai diweddaraf y Comisiwn o Lywodraeth Cymru, sydd yn peri problem gan na gynhwyswyd unrhyw arian wrth gefn yn y cais i dynnu Cymorth Grant mis Mawrth i lawr i fodloni cost y gwariant ychwanegol annisgwyl hwn. Mae'r Rheolwr Cyllid yn trafod atebion posibl ar hyn o bryd er mwyn trefnu bod y cyllid angenrheidiol ar gael yn yr Is-adran Noddi.

10.4. **Cytunodd** y Comisiwn ag Adroddiad y Gyllideb, yn amodol a fân gywiriad gramadegol.

## 11. Arolwg o Ffiniau Tua'r Môr Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 17 Mawrth 2017 gan y Swyddogion Arolygon.

11.2. **Cytunodd** y Comisiwn mai Owen Watkin fydd Comisiynydd Arweiniol yr arolwg at ddibenion archwilio adroddiadau'r cynnig cyn eu cyhoeddi.

11.3. **Cytunodd** y Comisiwn â'r cynigion drafft canlynol.

- Ffin tua'r môr arfaethedig Castell-nedd Port Talbot (CPT) ar gyfer cyfnod adeiladu datblygiad Morlyn Llanw Bae Abertawe.
- Ffin tua'r môr arfaethedig Abertawe ar gyfer cyfnod adeiladu datblygiad Morlyn Llanw Bae Abertawe.
- Ffin tua'r môr arfaethedig CPT ar gyfer cyfnod gweithredol datblygiad Morlyn Llanw Bae Abertawe.
- Ffin tua'r môr arfaethedig Abertawe ar gyfer cyfnod gweithredol datblygiad Morlyn Llanw Bae Abertawe.

11.4. **Cytunodd** y Comisiwn â'r trefniadau ôl-ddilynol a gynigiwyd o ganlyniad i'r newidiadau hyn.

11.5. **Nododd** y Comisiwn yr Adroddiad Cynigion Drafft ac fe amlygodd nifer o newidiadau sydd i'w gwneud. Caiff copi pellach ei ddosbarthu mewn

e-bost a chytunir arno'n ddiweddarach, yn barod i'w gyhoeddi ar 9 Mai 2017.

## 12. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Lleihau Risg a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2017

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 08 Mawrth 2017 gan y Rheolwr Cyllid.

12.2. **Nododd** y Comisiwn asesiad yr adran archwilio mewnol, ac roedd yn fodlon â chanlyniadau argymhellion y Pwyllgor Archwilio a Lleihau Risg. **Nododd** y Comisiwn fod adroddiad blynyddol Cadeirydd y pwyllgor wedi ei gadarnhau ac y caiff ei gyhoeddi maes o law.

## 13. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

13.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 20 Mawrth 2017 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

13.2. Bydd y Dirprwy Brif Weithredwr yn cyfarfod â Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg i drafod y protocol ar gyfer penderfynu ar enwau Cymraeg y wardiau etholiadol newydd.

13.3. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad.

## 14. Calendr Digwyddiadau

14.1. **Nododd** y Comisiwn y calendr.

## 15. Unrhyw fater arall

15.1. Nododd aelodau yr adroddiad llafar ynghylch y tandaliad bach o swm treth 2015-16 ar ffi Aelod o'r Comisiwn. Roedd y swm y gofynnwyd amdano gan Gyllid a Thollau EM yn ei llythyr, dyddiedig 3 Mawrth 2017, wedi ei dalu erbyn hyn cyn y dyddiad cau, er mwyn osgoi cosb. Roedd yr Ysgrifenyddiaeth yn aros am ymateb o hyd i'w chais am wybodaeth ychwanegol gan Gyllid a Thollau EM ynghylch yr amgylchiadau a arweiniodd at y tandaliad.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 25 Ebrill 2017**